**JCO277 (a)**

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Prifysgol Cymru University of Wales

**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 2.00 pm ddydd Iau 11 Gorffennaf 2024 yn Neuadd y Celfyddydau, Campws Llambed

Yn bresennol:
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans KC (Is-Ganghellor) (drwy Teams)
Justin Albert (drwy Teams)
Natalie Beard
John Edge
Yr Athro Kyle Erickson
Maria Dinu
Rowland Jones
Timothy Llewelyn
Arwel Ellis Owen
Yr Athro Conny Matera Rogers
Geraint Roberts
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry
Iwan Thomas
Dr Kerry Tudor
Dr Stuart Robb
Deris Williams

Yn gweinyddu:
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Sarah Clark, Clerc y Cynghorau
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Jane O’Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Yr Athro Mirjam Plantinga, PIG (Profiad Myfyrwyr)
Debra Williams PIG (Cysylltiadau Masnachol a Busnes)
Lynwen Davies (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 24.15 Ymddiheuriadau am absenoldeb | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Geraint Evans, Emlyn Schiavone, John Edge, Dr Peter Spring, Dr Andrew Cornish, Uzo Iwobi. | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 24.16<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau y Datganiadau o Fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (JCO255).<br><br>Nododd y Clerc fod Maria Dinu yn parhau i fod yn fyfyriwr cyfredol y Brifysgol a'i bod yn cymryd blwyddyn allan o'i hastudiaethau i ymgymryd â rôl Llywydd Grŵp Undeb y Myfyrwyr. Byddai'i datganiad ffurfiol yn cael ei gynnwys ar gofrestr y flwyddyn nesaf. | |
| 24.17<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Cadeirydd (JCO256).<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Maria Dinu, Llywydd Grŵp Undeb y Myfyrwyr a etholwyd yn ddiweddar, i'w chyfarfod cyntaf. Cydnabu ymrwymiad a chyfraniad Taya Gibbons, y Llywydd blaenorol, i'w rôl ar y Cyngor.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i Arwel Ellis Owen, a oedd yn ymddeol o'r ddau Gyngor ac fel Is-gadeirydd Cyngor PC, am ei arweinyddiaeth, ei ddoethineb a'i ymrwymiad i'r prifysgolion. Roedd aelodau wedi elwa o'i feddwl miniog a'i sylw at fanylion. Diolchodd hefyd i'r Athro Conny Matera Rogers a Dr Kerry Tudor, a oedd yn dod at ddiwedd eu tymor yn aelodau staff academaidd ar Gyngor PCYDDS. Byddai dau aelod o staff a oedd newydd eu hethol, Dr Tracy Cruickshank a Dr Deborah Hughes, yn ymuno â'r Cyngor ar 1 Awst 2024.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at sefydliad ffurfiol CTER ar 1 Awst 2024. Byddai CETR yn defnyddio 'Medr' yn enw brand. Adroddodd yr Is-Ganghellor, Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Clerc ar y digwyddiadau lansio yr oeddynt wedi eu mynychu ar ran Cyngor y Brifysgol.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd fod newidiadau sylweddol ar waith yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gan gynnwys enw newydd arfaethedig.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd fod PCYDDS wedi derbyn cadarnhad ym mis Mai 2024 fod Ei Fawrhydi'r Brenin yn falch o barhau â nawdd i PCYDDS. Roedd y Clerc wedi ymateb ar ran y Brifysgol. | |
| 24.18<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad llafar gan yr Is-Ganghellor.<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y canlynol:<br><br><u>Adroddiad Estyn</u> | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Roedd PCYDDS wedi derbyn adroddiad rhagorol yn canmol y cynnydd a wnaed gan y Brifysgol. Roedd Estyn wedi cymeradwyo'r adroddiad monitro yn ystod ei ymweliad terfynol ac wedi canmol partneriaeth y Brifysgol ag ysgolion.<br><br><u>Canlyniadau'r NSS</u><br>Adroddodd yr Is-Ganghellor ar ganlyniadau PCYDDS yn yr NSS. Roedd swyddogion yn y broses o ddadansoddi'r data crai. Roedd boddhad wedi cynyddu 3% ar draws pob maes gyda chyfradd foddhad gyffredinol uwch o 83%. Roedd hyn yn cynnwys 89.5% ar gyfer addysgu. Byddai dadansoddiad manwl yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Academaidd maes o law.<br><br><u>Cyllid CCAUC</u><br>Byddai'r Brifysgol yn derbyn toriad cyllid canrannol a oedd yn uwch na mannau eraill yn y sector, ac ymddangosai y gellid priodoli hyn i ddyraniad rhan-amser hanesyddol y Brifysgol. Byddai'n trafod y dull gyda chyrff perthnasol yn y dyfodol. | |
| 24.19<br>Materion y Pwyllgor Archwilio a Risg | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 23 Mai 2024 (JCO257).<br><br>Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg fod y pwyllgor wedi cadarnhau'r Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i diweddaru a'r papurau cysylltiedig, a Pholisi Rheoli a Sicrwydd Risg y Grŵp wedi'i ddiweddaru.<br><br>Roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd wedi croesawu adolygiad yr Uwch Dîm Arwain o drefniadau archwilio mewnol. | |
| 24.20<br>Materion rheoli risg | YSTYRIODD y Cynghorau y Gofrestr Risg wedi'i diweddaru, delweddiad yn dangos newidiadau yn lefel y risg dros y flwyddyn academaidd gyfredol, map Sicrwydd wedi'i ddiweddaru a Pholisi Rheoli a Sicrwydd Risg y Grŵp wedi'i ddiweddaru.<br><br>Adroddodd Y PSG ynghylch risgiau ychwanegol a ychwanegwyd at y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Adroddodd hefyd ynghylch archwiliad diweddar Fisâu a Mewnfudo y DU o PCYDDS. Roedd adborth anffurfiol wedi nodi yr ystyrid bod y Brifysgol yn cydymffurfio ac yn dangos arfer da.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau Bolisi Rheoli a Sicrwydd Risg y Grŵp wedi'i ddiweddaru. | |

**JCO277 (a)**

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 24.21 Materion y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | YSTYRIODD y Cynghorau adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2024 (JCO259).<br><br>Cymeradwyodd y Cynghorau argymhellion canlynol y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu:<br><br>• Y cynigion ynghylch recriwtio aelodau annibynnol newydd.<br><br>• Y cynnig y dylid cynnal yr Adolygiad nesaf o Effeithiolrwydd Llywodraethu yn ystod gwanwyn 2025, gyda'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ymgymryd â chynllunio yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2024. | |
| 24.22 Protocol cyfarfodydd | CYMERADWYODD y Cynghorau barhau i fabwysiadu'r protocol ynghylch defnyddio cyfieithu mewn cyfarfodydd ar-lein/hybrid, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (JCO260). | |
| 24.23 Cylch gorchwyl pwyllgorau | CYMERADWYODD y Cynghorau ailintegreiddio materion ystadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a newidiadau eraill yng nghylch gorchwyl pwyllgorau ar gyfer 2024/25 (JCO261). | |
| 24.24 Cod CUC | DERBYNIODD y Cynghorau yr adolygiad dwyflynyddol o'u hymlyniad at *Higher Education Code of Governance* y CUC, a oedd wedi'i ystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (JCO262). | |
| 24.25 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 | DERBYNIODD y Cynghorau Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 (JCO264), a oedd wedi'i gymeradwyo drwy weithredu gan y Cadeirydd oherwydd y dyddiad terfyn cyhoeddi statudol. | |
| 24.26 Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol | DERBYNIODD y Cynghorau Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2022-23 (JCO264b), a oedd wedi'i gymeradwyo drwy weithredu gan y Cadeirydd oherwydd y dyddiad terfyn cyhoeddi statudol.<br><br>Nododd y CGAD fod yr adroddiad wedi'i ddiweddaru o ran data staff a byddai'n cael ei ddiweddaru ymhellach pan fyddai data HESA o ran myfyrwyr ar gael. | |
| 24.27 Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau | DERBYNIODD y Cynghorau yr adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023 (JCO264c). | |

**JCO277 (a)**

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 24.28<br>Datganiad Blynyddol a chyfarfod Adolygu PREVENT | YSTYRIODD y Cynghorau adroddiad CCAUC ar ei gyfarfod adolygu cyfnodol ynghylch PREVENT gyda PCYDDS ym mis Awst 2023 a'i ddadansoddiad o ddatganiadau blynyddol PREVENT PC a PCYDDS (JCO264).<br><br>Cadarnhaodd yr adroddiad fod y wybodaeth a ddarparwyd wedi dangos digon o dystiolaeth o sylw dyladwy i ddyletswydd PREVENT gan y ddwy Brifysgol gan grynhoi camau gweithredu a gytunwyd.<br><br>CYTUNODD y Cynghorau y dylid cyfeirio i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yr argymhelliad bod y Brifysgol yn ystyried buddion penodi llywodraethwr arweiniol ar gyfer PREVENT, i'w ystyried yng nghyd-destun polisi cyffredinol ar gyfer y llywodraethwyr arweiniol. | |
| 24.29<br>Cofnodion | CYMERADWYODD y Cynghorau Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024 (JCO265). | |
| 24.30<br>Penodiadau i Bwyllgorau Sefydlog | DERBYNIODD y Cynghorau y crynodeb o benodiadau ac ailbenodiadau pwyllgorau sefydlog ar gyfer 2024/25, a oedd wedi'i gymeradwyo drwy weithredu gan y Cadeirydd (JCO266). | |
| 24.31<br>Datganiadau o fuddiannau | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau ychwanegol o fuddiannau yn ystod y cyfarfod. | |
| 24.32<br>Cyfarfod nesaf | 26 Medi 2024. | |

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00pm